OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1863 (Cy. 201) (C. 68)

# TAI, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2011

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r ail Orchymyn Cychwyn i'w wneud gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 ("Deddf 2008"). Mae'n dod ag adran 309 (Fflatiau a fu gynt yn fflatiau hawl i brynu a fflatiau eraill: pryniadau cyfrannau ecwiti) o Ddeddf 2008 i rym ar 26 Gorffennaf 2011 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau. Mae'r Gorchymyn yn dod ag adran 308 (Fflatiau a fu gynt yn fflatiau hawl i brynu a fflatiau eraill: benthyciadau at ffioedd gwasanaeth) o Ddeddf 2008 ac adran 309 i rym yn llawn o ran Cymru ar 19 Awst 2011.

Mae adran 308 yn diwygio adran 450C o Ddeddf Tai 1985 ("Deddf 1985") mewn cysylltiad â benthyciadau at ffioedd gwasanaeth gan landlordiaid i lesddeiliaid i'w cynorthwyo i dalu ffioedd gwasanaeth, yn y fath fodd ag i ganiatáu i fenthyciadau o'r fath fod ar delerau nad ydynt yn delerau benthyciad sy'n dwyn llog. Mae'r pŵer o dan adran 450C o Ddeddf 1985 wedi ei estyn i ddarparu ar gyfer codi ffi am wasanaethau'r prisiwr dosbarth.

Mae adran 309 yn mewnosod adran 450D yn Neddf 1985. Mae'r adran hon yn darparu y caiff yr awdurdod cenedlaethol priodol ddarparu drwy reoliadau, os awdurdod tai yw landlord fflat sydd wedi ei osod ar les hir i denant (lesddeiliad) sy'n atebol am dalu ffioedd gwasanaeth mewn cysylltiad ag atgyweiriadau neu welliannau i'r fflat, y caiff y landlord brynu, gyda chytundeb y tenant, fuddiant ecwitïol (cyfran) yn fflat y tenant i helpu'r tenant i dalu ffioedd gwasanaeth. Ystyr

yr awdurdod cenedlaethol priodol yw Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

**NODYN YNGHYLCH GORCHYMYN CYCHWYN BLAENOROL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Gwnaed un Gorchymyn Cychwyn cyn dyddiad y Gorchymyn hwn, a hwnnw'n cychwyn adran 315 o Ddeddf 2008 mewn perthynas â Chymru ar 30 Mawrth 2009 (*gweler* O.S. 2009/773 (Cy. 65)).

Mae amryw o ddarpariaethau Deddf 2008 wedi eu dwyn i rym mewn perthynas â Lloegr gan yr Offerynnau Statudol a ganlyn:

O.S. 2008/2358, O.S. 2008/3068, O.S. 2009/363, O.S. 2009/415, O.S. 2009/773, O.S. 2009/803, O.S. 2009/1261, O.S. 2009/2096, O.S. 2010/862 ac O.S. 2011/1002.

*Gweler* hefyd adran 325(2) o Ddeddf 2008 ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar ddiwedd y deufis o'r dyddiad y cafodd Deddf 2008 ei phasio.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1863 (Cy. 201) (C. 68)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2011

*Gwnaed* *25 Gorffennaf 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddynt gan adran 325(3) a (4) o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008([1]) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tai ac Adfywio 2008 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Cychwyn darpariaethau penodol yn Rhan 3 (materion landlord a thenant)**

**2.** Mae adran 309 (Fflatiau a fu gynt yn fflatiau hawl i brynu a fflatiau eraill: pryniadau cyfrannau ecwiti) o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 yn dod i rym ar 26 Gorffennaf 2011 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan adran 450D o Ddeddf Tai 1985.

**3.** Mae darpariaethau canlynol Deddf Tai ac Adfywio 2008 yn dod i rym ar 19 Awst 2011:

(1) adran 308 (Fflatiau a fu gynt yn fflatiau hawl i brynu a fflatiau eraill: benthyciadau at ffioedd gwasanaeth); a

(2) adran 309 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.

([1]) 2008 p.17.

*Huw Lewis*

Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, un o
Weinidogion Cymru.

25 Gorffennaf 2011